Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

10 Gorffennaf 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

**CYNLLUNIAU MYND NÔL I'R YSGOL YM MIS MEDI**

Prynhawn ddoe, 09.07.20, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams bydd pob disgybl nôl yn yr ysgol erbyn 14.09.20. Datganodd y Gweinidog "dylai ysgolion gynllunio i agor ym mis Medi gyda 100% o'r disgyblion yn bresennol ar safleoedd ysgolion, yn amodol ar ostyngiad parhaus a chyson ym mhresenoldeb COVID-19 yn y gymuned."

Cyhoeddodd y Gweinidog y canlynol:

Bydd ysgolion yn dychwelyd i gapasiti llawn gydag elfen gyfyngedig yn unig o gadw pellter cymdeithasol oddi mewn i grwpiau cyswllt.

Wrth weithredu'n llawn, dylai grŵp cyswllt gynnwys tua 30 o blant. Bydd rhywfaint o gymysgu uniongyrchol ac anuniongyrchol rhwng plant mewn gwahanol grwpiau cyswllt hefyd yn amhosibl ei osgoi, fel ar gludiant, wrth dderbyn addysg arbenigol neu oherwydd cyfyngiadau staffio.

Dylai pob ysgol barhau i fod yn "Ddiogel Rhag Covid" – wedi cynnal asesiadau risg a lliniaru unrhyw risg gyda chyfuniad o fesurau rheoli fel hylendid dwylo ac arwynebau, systemau un ffordd ac ati.

Os yw gwybodaeth rybuddio gynnar yn dangos digwyddiad neu achosion lleol, dylai'r ysgolion cyfagos weithredu mesurau cyfyngu priodol.

Bydd cyflenwad o becynnau profi cartref ar gael ym mhob ysgol.

Rydym fel staff yn falch i glywed bydd ein holl ddisgyblion nôl gyda ni ym mis Medi yn ysgol Penweddig. Ein nod yw sicrhau profiad diogel a phleserus i bob disgybl. Yr wythnos nesaf, byddwn yn eich hysbysu am y trefniadau parthed pryd fydd y grwpiau gwahanol yn mynychu'r ysgol yn ystod 03.09.20 –

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig    Ffordd Llanbadarn    Llangawsai    Aberystwyth    SY23 3QN
**T** (01970) 639499    **F** (01970) 626641    **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

11.09.20. Mae 01.09.20 a 02.09.20 wedi eu clustnodi yn ddiwrnodau HMS i athrawon.

Fel ysgol, rydym yn aros am gyhoeddiad canllawiau gweithredol a dysgu diwygiedig gan Lywodraeth Cymru'r wythnos nesaf. Fel ysgol, byddwn yn eich hysbysu o'r trefniadau gweithredol ym Mhenweddig ar gyfer Medi wedi i ni dderbyn y wybodaeth.

Am wybodaeth bellach o ran cynlluniau'r Llywodraeth parthed mynd nôl i'r ysgol ym Medi, gweler y ddogfennaeth isod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10.07.20:

https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-cyhoeddi-cynlluniau-ar-gyfer-mynd-yn-ol-ir-ysgol-ym-mis-medi?_ga=2.81274463.910038062.1594024477-1813251484.1589555207

Gweler hefyd yr adroddiad isod gan Grŵp Cyngor Technegol: "Cyngor ar ddychwelyd i'r ysgol" a gyhoeddwyd ar 10.07.2020:

https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-ar-ddychwelyd-ir-ysgol

**DIWEDDARIAD PENWEDDIG AR SAFLE HUGH OWEN**

Unwaith eto'r wythnos hon, mae'r trefniadau wedi mynd yn hwylus ac rydym wedi croesawu mwy o'n disgyblion i'r safle.

Fel corff o staff, gwelwn y cyfle i ail-gysylltu fel cymuned gyda'n disgyblion, ail-sefydlu'r perthnasoedd rhwng athrawon a  disgyblion yn ogystal â chynnig "check-in' o'r gefnogaeth sydd angen ar ein disgyblion yn holl bwysig. Mae wedi bod yn braf iawn bod yng nghwmni ein disgyblion eto.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad fel rhieni a gwarcheidwaid unwaith eto yr wythnos hon, wrth gydymffurfio gyda'n gofynion tra ein bod ar  safle Hugh Owen. Byddwn yn parhau gyda'r un trefniant ar gyfer y canlynol yr wythnos nesaf:

- amserlen y diwrnod
- grwpiau'r disgyblion
- trefniadau gollwng a chasglu disgyblion

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig    Ffordd Llanbadarn    Llangawsai    Aberystwyth    SY23 3QN
**T** (01970) 639499    **F** (01970) 626641    **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

- trefniadau casglu disgyblion mewn ceir ar ddiwedd y dydd
- trefniadau cymryd tymheredd disgyblion
- trefniadau ymbellhau cymdeithasol ar y safle
- golchi dwylo / hylendid
- gwisg ysgol

Gweler llythyr 25.6.20 am fanylion pellach.

**Ar gyfer yr wythnos nesaf**, **a wnewch chi sicrhau bod y disgyblion gyda'r offer isod os gwelwch yn dda:**

- Pecyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ ) - bydd angen i ddisgyblion ddychwelyd eu sbwriel o'u hegwyl /cinio adref.
- Potel dŵr mawr eu hunain wedi ei labelu gydag enw'r disgybl – noder nid oes modd i unrhyw ddisgyblion lenwi potel dŵr ar y safle dŵr oherwydd rhesymau hylendid.
- Câs pensiliau
- Papur Ysgrifennu
- Ffôn / Gliniadur/ Tabled wedi gwefru'n llawn (Os nad oes dyfais gennych, mi fydd yr athro yn medru cyrchu'r gwaith ar eich cyfer ac yn medru ei arddangos ar sgrîn ryngweithiol y dosbarth)
- Cot ( i'w gadw yn y bag ysgol, o dan y ddesg, tra'n yr adeilad)

Bydd angen i'r disgybl gyrraedd yr ysgol yn gwisgo eli haul. Dylid dod ag eli haul os oes angen rhoi mwy ymlaen yn ystod y dydd. Ni fyddwn yn medru darparu eli-haul. Mae angen i bob plentyn ddod a het haul (i'w gadw yn y bag).

Mae angen sicrhau bod y disgyblion wedi paratoi ynghynt er mwyn dod â'r offer uchod angenrheidiol uchod i'r ysgol yn ddyddiol. O hyn ymlaen, ni fydd yn ymarferol benthyg offer gan ffrindiau ac ni fydd yr ysgol yn gallu darparu offer.

Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith sydd wedi ei gwblhau yn flaenorol yn y cartref er mwyn ei farcio, ac ni fydd unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar bapur ar y safle yn cael ei gyflwyno i'r athro. Bydd disgyblion yn parhau i gyflwyno'r gwaith drwy drefniant 'Show My Homework'.

Carwn ddiolch hefyd i'r nifer o ddisgyblion sydd heb ddychwelyd ond yn parhau i ddysgu o bell ac yn ymdrechu wrth gwblhau a chyflwyno gwaith. Cofiwch fod

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

aelodau staff yma i'ch cynorthwyo a bod modd i chi gysylltu â hwy drwy 'Show My Homework'.

**RHIF FFÔN HAFAN – AIL-ATGOFFA**

Ceir ystafell yn yr ysgol (Hafan) ble mae disgyblion yn medru cael eu cyfeirio am gefnogaeth emosiynol ac ymarferol. Ein nod yw cefnogi lles y disgybl a chynnig cefnogaeth ymarferol. Gall disgybl hunangyfeirio ei hunain at Hafan neu gael ei gyfeirio/chyfeirio gan aelod o staff. Os yw disgybl yn dymuno cefnogaeth, mae angen tecstio 07970 069723 gydag enw llawn y disgybl a'r flwyddyn ysgol i wneud apwyntiad. Er mwyn i'r disgybl baratoi at yr apwyntiad byddwn yn ymdrechu i ddanfon neges destun at y disgybl 5-10 munud cyn yr apwyntiad.

Er mwyn cael mynediad i'r gefnogaeth, bydd personel dynodedig yr Hafan yn hebrwng y disgybl o'r wers i'r Hafan yn ystod y diwrnod ysgol. Yn ogystal, bydd personel yr Hafan yn hebrwng y disgybl yn ôl i'r wers. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau ymbellhau cymdeithasol a diogelu. Rydym eisiau sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn y gynhaliaeth emosiynol anghenrheidiol. Fel rhieni a gwarcheidwaid, oes modd i chi annog disgyblion i wneud apwyntiad yn ystod y sesiynau lles boreol os gwelwch yn dda.

**ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN**

Bydd disgyblion blynyddoedd 7, 8 ,10 a 12 yn derbyn adroddiadau diwedd blwyddyn ar ddiwedd y tymor drwy e-bost.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawi ein disgyblion nôl i'r ysgol unwaith eto'r wythnos nesaf. Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf yr wythnos nesaf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

10 July 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

I sincerely hope that you and your families, as members of our School community, continue to keep healthy and safe.

This week, I would like to inform you of the following:

**BACK TO SCHOOL PLANS FOR SEPTEMBER**

Yesterday, 9.07.20, Welsh Government Education Minister Kirsty Williams announced plans that every pupil will be back in school by 14.09.20. The Minister announced that schools "plan to open in September with 100% of pupils physically present on school sites, subject to a continuing, steady decline in the presence of COVID-19 in the community."

The Minister announced that:

Schools will return to full capacity, with only limited social distancing within contact groups.

At full operations, a contact group should consist of around 30 children. Some direct or indirect mixing between children in different contact groups will also be unavoidable, such as on transport, receiving specialist teaching or due to staffing constraints.

Social distancing for adults should remain in line with regulations and guidance.

Schools will be required to minimise the risk of transmission by taking other mitigating measures using the hierarchy of risk controls.

Every school should continue to be "Covid Protected" - having carried out risk assessments and mitigated them with a combination of controls such as hand and surface hygiene, one-way systems and so forth.

If early warning information shows a local incident or outbreak then nearby schools should implement appropriate restriction measures.

Each school will be provided with a supply of home testing kits.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

As staff, we are happy to hear that all our pupils will be back with us in September at Penweddig school. Our aim is to ensure a safe and enjoyable experience for every pupil. Next week, we will inform you of the arrangements regarding when different groups of pupils will attend school during 03.09.20 – 11.09.20. Staff will attend INSET days on 01.09.20 and 02.09.20.

As a school, we are waiting for the Welsh Government to publish updated operational and learning guidance next week. As a school, we will inform you of the operational arrangements in Penweddig for September once we have received the information.

For further information regarding the Governments back to school plans for September, please see below documentation published by Welsh Government on 10.07.20:

https://gov.wales/education-minister-announces-back-school-plans-september?_ga=2.181519463.1585550355.1594383788

In addition, please see report below by the Technical Advisory Group: "Advice on return to school":

https://gov.wales/technical-advisory-group-advice-return-school

**PENWEDDIG UPDATE ON HUGH OWEN SITE**

Once again this week, arrangements for re-opening the school have gone smoothly and we have welcomed more pupils on site.

As staff, we see the opportunity to re-connect as a school community, re-establish the teacher pupil relationships as well as provide a "check-in" of what support is required for pupils as all important. It has been lovely to be in the company of our pupils once again.

As parents and guardians, we thank you for your co-operation and compliance with the school requirements whilst being relocated to the Hugh Owen building. Next week, we will continue with the same arrangements for the following:

- timetable
- groups of pupils
- drop of and pick up arrangements for pupils
- arrangements for collecting pupils by car at the end of the school day

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

- pupil temperature checks on site
- social distancing on site
- hand washing / hand hygiene
- school uniform

Please see letter 25.6.20 for further details.

Please could you ensure that pupils bring the items below to school next week:

- A packed lunch (including an ice pack)
- Their own large water bottle clearly labelled with their name. Pupils will **not** be able to fill their water bottle on site due to hygiene reasons.
- A pencil case
- Notepaper
- Laptop / Tablet / Mobile Phone which is **fully charged.** (If you do not have a device, the teacher will be able to access the work for you and show it on the interactive screen in class)
- A coat (to be kept in the school bag, in the classroom and stored under the desk when in the Hugh Owen building)
- Sun cream and a sun hat (we will be unable to provide suncream)

It is no longer practical to borrow equipment from friends and the school will not be able to provide equipment.

Pupils must ensure that they have prepared their bag beforehand and bring the necessary equipment to school every day.

Any work that has been completed beforehand at home to mark will not be accepted. Furthermore, no work that is completed on paper on the school site will be presented to the teacher. Pupils will continue to present their work via 'Show My Homework' Please see details below regarding how to submit work on 'Show My Homework'

We also thank those pupils who have not returned to school for their continued efforts with distance learning. Please remember that staff are available to help and support you as well as answer any of your queries via 'Show My Homework'.

**HAFAN PHONE NUMBER - REMINDER**

Hafan is a room within the school where pupils can be referred for emotional and practical support. It aims to support the pupil's wellbeing. A pupil may self-refer to

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Hafan or be referred by a member of staff. To make an appointment, please text 07970 069723 with the pupil's name and school year. We will endeavour to text the pupil 5-10 mins before the appointment to prepare the pupil. The designated 'Hafan' personnel will escort the pupil from the lesson to the 'Hafan' during the school day to access the support. The 'Hafan' personnel will also escort the pupil back to the lesson. This is to ensure that the safeguarding and social distancing procedures are implemented and followed. We want to ensure that our pupils receive the necessary emotional support. As parents and guardians, can you please encourage pupils to make an appointment during the morning wellbeing sessions.

**END OF YEAR REPORTS**

Year 7, 8, 10 and 12 pupils will receive their end of term reports at the end of the term via e-mail.

We look forward to welcoming our pupils back to school again next week. You will receive correspondence from me next week to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher